| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6 Chwefror 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Addysg/Pennaeth Addysg/Prif Swyddog GwE** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Addysg/Prif Swyddog GwE** |
| **Teitl:** | **Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE)** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Y cynnydd a gyflawnwyd ar ôl sefydlu'r Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu gwybodaeth am y cynnydd a wnaed yn dilyn sefydlu'r Gwasanaeth newydd ac ystyried y cynnydd hwnnw er mwyn:

- Nodi'r manteision a gafodd eu gwireddu hyd yn hyn gan ei sefydlu er mwyn mesur effeithiolrwydd y ddarpariaeth Gwasanaeth.
- Nodi problemau a gafwyd sydd eto i'w datrys er mwyn sicrhau bod y risg i gyflwyno Gwasanaeth yn cael ei liniaru'n llwyddiannus eto.
- Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw gynigion i ehangu'r Gwasanaeth.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

3.1 ystyried y wybodaeth a ddarperir a sylwadau ar y cynnydd a gyflawnwyd hyd yma yn dilyn sefydlu Gwe o ran y canlynol:

- Effeithiolrwydd Gwe wrth gyflwyno arbedion maint a chefnogaeth arbenigol i ategu Gwasanaeth Addysg y Sir.
- Nodi llithrianau, risgiau, bylchau yn y gwasanaeth neu bwysau yn y dyfodol o ran argymell camau gweithredu lliniarol.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1 Cyflwynodd Prif Swyddog GwE adroddiad i'r Cyd-bwyllgor ar 6 Tachwedd 2013. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y cynnydd y mae GwE wedi ei wneud hyd yn hyn. (Atodlen 1). Cyflwynodd y Pennaeth Addysg adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 16 Chwefror ar CA4 a chanlyniadau Ôl-16 2013. (Atodlen 2).

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae gwella perfformiad mewn Addysg ac ansawdd adeiladau ysgolion yn un o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor ar gyfer tymor 2012-17. Mae cyflwyno GwE yn effeithiol yn rhan annatod o gyflawni'r flaenoriaeth hon gan fod y Gwasanaeth yn gyfrifol am gyflwyniad gweithredol swyddogaethau gwella ysgol craidd, gan weithredu fel gwasanaeth a gomisiynir.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae cost hyn wedi ei gytuno drwy'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad? Dylai'r templed Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i lenwi gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.**

Pwrpas yr adroddiad yw adolygu ac ystyried y cynnydd a wnaed. Felly, nid yw'r adroddiad yn ceisio penderfyniad mewn ymateb i gynnig. Nid oes unrhyw effeithiau andwyol ar unrhyw un o'r nodweddion a ddiogelir o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae ymgynghoriad wedi ei gynnal gyda Budd-ddeiliaid Allweddol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae'r risgiau i enw da a'r risgiau gwleidyddol i'r Awdurdod yn fach iawn, cyn belled â bod GwE yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel er mwyn cyfrannu at y llwybr o welliant parhaus y mae Sir Ddinbych wedi'i sicrhau.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Nid oes unrhyw ofynion cyfreithiol ond mae arolygiadau Awdurdodau Lleol yn orfodol.

11.2 Mae Erthygl 6.3.2 (f) o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi y gall pwyllgorau archwilio sicrhau bod y camau a nodir mewn cynlluniau gweithredu yn cael eu cyflawni.

11.3 Mae Erthygl 6.3.3 (ch) yn datgan y gall y pwyllgor archwilio gysylltu â chyrff allanol sy'n gweithredu yn yr ardal, boed yn genedlaethol, rhanbarthol neu leol, i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu cynyddu drwy gydweithio.

**Swyddog Cyswllt:** Pennaeth Addysg Ffôn: 01824 708009